# CROESO I GARFAN DATBLYGU'R GYMUNED – RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 01
CH1 EBRILL - MEHEFIN 2023




[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)]

Cynnwys:

Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth a Chymorth i Drigolion - tudalennau 2-3

Trosglwyddo Asedau Cymunedol - tudalennau 4

Cyllid ac Adnoddau - tudalennau 5 - 7

Manylion cyswllt - tudalen 8

**Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth, a Chymorth i Drigolion**

Mae Rhwydweithiau Cymdogaeth yn bartneriaethau sy'n cynnwys 7 Canolfan Cydnerthedd y Gymuned.


Diben Rhwydweithiau Cymdogaeth yw dod â phartneriaid lleol ynghyd i gysylltu ein cymunedau trwy roi cyfle i grwpiau a thrigolion ddweud eu dweud o ran llywio blaenoriaethau lleol, trefnu man i grwpiau a phartneriaid lleol drafod pethau sy'n bwysig i'r gymuned a nodi datrysiadau i unrhyw broblemau.

Yn ystod Chwarter 1, cafodd 20 o gyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth eu cynnal gyda 249 o grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled Rhondda Cynon Taf.

Am ragor o wybodaeth...

RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Adborth gan Rwydweithiau Cymdogaeth yn ystod y chwarter yma:



## Cymorth i Drigolion

Mae modd i drigolion Rhondda Cynon Taf ofyn am gymorth gan y gymuned pan fydd ei angen arnyn nhw fwyaf.  Mae Cydlynwyr Cymunedol yn ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol sy'n gallu helpu gyda:

- Siopa/anghenion bwyd
- Galwad ffôn gyfeillgar i gadw mewn cysylltiad
- Dod o hyd i waith, neu gael hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith
- Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau
- Gwybodaeth am y gwasanaeth llyfrgell 'gartref'
- Gwybodaeth am y gwasanaeth 'Lifeline Plus'
- Cymorth lles os ydych chi'n teimlo'n unig neu'n ynysig neu pe hoffech chi gysylltu â grŵp cymunedol yn eich ardal leol
- Asesiad lles - gall hyn gynnwys ymweliadau â'ch cartref i drafod eich anghenion.

Mae modd i unrhyw un ofyn am gymorth ar unrhyw bryd, a hynny ar eu cyfer nhw eu hunain neu ar gyfer unigolion y maen nhw'n eu hadnabod. Mae modd gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen syml ar-lein yma:

Cymorth i Drigolion | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

**Y llynedd (Mis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023) ymatebodd y garfan i 672 o geisiadau trigolion am gyngor, gwybodaeth a chymorth.**

**Dywedodd 64% o'r bobl yma fod angen help arnyn nhw oherwydd effaith uniongyrchol yr Argyfwng Costau Byw.**

Yn ystod y chwarter yma (Ebrill - Mehefin 2023) derbyniodd y garfan:

**153 o geisiadau gan drigolion am gymorth â'r canlynol:**

Mynd i siopa - **63**



Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau - **53**



Taleb archfarchnad untro - **79**



*Diolch am wrando ac am gynnig cymorth. Doeddwn i ddim yn gwybod bod gan Ganolfan y Gymuned bantri bwyd a bod modd derbyn cymorth yno. Diolch am drefnu hyn.*

*Er fy mod i wedi cael cymorth gan fy mam, rwy'n falch ei bod hi wedi dweud wrthyf i i gysylltu â chi gan ein bod ni i gyd yn ei chael hi'n anodd talu biliau a siopa bwyd ar hyn o bryd.*

*Diolch am y daleb yma - dydw i ddim yn siŵr beth fyddwn ni wedi ei wneud hebddi.*

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn ymwneud â throsglwyddo rheolaeth adeiladau a/neu dir y Cyngor i sefydliad cymunedol “nid er elw personol”, menter gymdeithasol neu Gyngor Tref / Cymuned.

**Newyddion eraill -** Lansio "Hwb Cana" ym Mhen-y-waun yn swyddogol ym mis Ebrill 2023 ar ôl trosglwyddo'r adeilad i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r adeilad wedi cael ei drawsnewid yn Ganolfan Hyfforddi a Sgiliau o'r radd flaenaf. Mae *Smart Money Community Bank* yn un o denantiaid yr adeilad, yn ogystal â Rhaglen Hyrwyddwyr y Gymuned Meysydd Glo mewn partneriaeth â Macmillan Cancer Support. Bydd y rhaglen yma'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gymorth canser a gwella deilliannau.



68 o ymholiadau am gymorth; 52 ohonyn nhw'n achosion Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Trosglwyddo Tir y Cyngor yn Nhreherbert i 'Croeso i'n Coedwig' trwy brydles 25 mlynedd yn llwyddiannus:

- Cynnal Prosiect Perllan ac Amaeth-goedwigaeth Cymunedol yn rhan o gynllun peilot - gweithgareddau tyfu bwyd a garddwriaeth arloesol ar draws y safleoedd.
- Mae'r grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â Phlant y Cymoedd - bydd Prosiect Penyrenglyn a myfyrwyr Coleg y Mynydd Du yn rheoli a chynnal a chadw’r safle yn rhan o'u NVQ Lefel 2 mewn Garddwriaeth Gynaliadwy.






Trosglwyddo safle hen Lyfrgell Glynrhedynog i 'Y Siop Fach Sero' trwy brydles 10 mlynedd yn llwyddiannus:

- Menter Gymdeithasol wedi sicrhau cyllid gwerth dros £393,711 i dalu am waith adnewyddu'r adeiladau a darpariaeth staff.
- Y siop ddiwastraff gyntaf yng Nghwm Rhondda Fach sy'n gwerthu cynnyrch lleol yn y caffi, cynnal gweithgareddau trwsio yn gyson, ailgylchu citiau chwaraeon a chynnal gweithdai ar sut i fyw yn fwy cynaliadwy.









## Cyllid ac Adnoddau - Grantiau

### Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf

Cyllid

### Rownd 2

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ar gael i'r Cyngor er mwyn i leoedd fuddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth seilwaith i adfer mannau cymunedol a pherthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ar lefel y gymdogaeth.

Mae Cyngor RhCT wedi cyflwyno Grant Cymunedol er mwyn cyflawni'r canlynol:

- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y lleoedd hynny lle maen nhw wedi mynd ar goll.

Bydd £4.3 miliwn yn cael ei fuddsoddi'n lleol dros gyfnod o dair blynedd gan ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

Yn ystod y chwarter yma (Ebrill - Mehefin) mae'r garfan wedi cefnogi:

**73 o ddyfarniadau lefel is - darpariaeth ar waith ar draws cymunedau**

Dyfarniadau lefel ganolig ac uwch - derbyn contractau i ddechrau darpariaeth yn ystod Chwarter 2 (o fis Gorffennaf ymlaen).

Bydd rownd nesaf prif Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn agor ym mis Ionawr 2024. Bydd micrograntiau ar gael o fis Gorffennaf 2023 ymlaen.

### Grant Urddas Mislif yn y Gymuned Llywodraeth Cymru

Rydyn ni wrthi'n derbyn archebion am becynnau o nwyddau mislif. Mae modd ailddefnyddio 70% o'r cynhyrchion cynaliadwy yma. Archebwch becyn **NAWR** a chewch fynediad at weithdy gwybodaeth am ddim ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o gynhyrchion cynaliadwy ar gyfer y mislif a'r menopos. Mae modd archebu pecyn trwy anfon e-bost i rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

### Cronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth

Mae cyfnod ymgeisio y Gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth bellach wedi dod i ben dros dro.

### Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Microgrant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf

Bydd micrograntiau gwerth hyd at £1,000 ar gael yn fuan i ddarparu gweithgareddau yn y gymuned a phrosiectau fydd yn cyfrannu at Leoedd Bwyd Cynaliadwy.

FFYNIANT BRO
LEVELLING UP

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

## Cyllid ac Adnoddau

### Cymunedau sy’n Gyfeillgar o ran Oedran

Mae gwaith y garfan o sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn cael ei chydnabod yn gymuned sy'n gyfeillgar o ran oedran, a hynny fel aelod cyswllt o Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau sy’n Gyfeillgar o ran Oed Sefydliad Iechyd y Byd, yn parhau dan arweiniad carfan y Comisiynydd Pobl Hŷn.




Cymru Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Wales

Ynghyd â:

- Achlysuron ymgysylltu ac ymgynghori parhaus â grwpiau cymuned i bobl hŷn
- Mynediad i gyllid i ddarparu gweithgaredda u a mentrau sy'n gyfeillgar o ran oed

## Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin) Sbotolau ar Ddementia

Rydyn ni wedi datblygu Modiwl E-Ddysgu Ymwybyddiaeth o Ddementia sydd ar gael i weithwyr ac aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Wythnos Gweithredu ar Ddementia - Pontypridd sy’n deall Dementia - 'Troi Pontypridd yn Las' - Aeth y garfan ati i gefnogi ymgyrch y gymuned gyda rhubanau a baneri glas a nifer o stondinau a gweithgareddau, gan gynnwys:

- Ymgyrch Ceisio Barn ar Ddementia - "Street Sofa” - man diogel i'r rheiny sydd â phrofiad o  ddementia i rannu eu straeon i greu darlun o ofal Dementia yn RhCT - bydd rhagor o wybodaeth am hyn maes o law














**Cyllid ac Adnoddau**

## Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Mae Bwyd RhCT yn parhau i weithio tuag at greu system fwyd gynaliadwy yn RhCT. O ganlyniad i'n hymdrechion parhaus a phartneriaethau gwerthfawr, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd arwyddocaol wrth hyrwyddo dull tuag at fwyd sy'n fwy gwyrdd a chyfeillgar i'r amgylchedd.

### Achlysur Llwyddiannus i Arddwyr y Gymuned

Ar 11 Mai, cynhalion ni achlysur llwyddiannus iawn i'r garddwyr yn ein cymuned yn *Down To Zero*. Daeth 11 o bartneriaid ynghyd i drafod eu hangerdd am arferion tyfu bwyd yn gynaliadwy. Roedd yn gyfle gwych i rannu syniadau a phrofiadau a chryfhau ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau dyfodol mwy gwyrdd i RCT.

### Achlysur Brecwast Rhwydweithio i Fusnesau Bwyd

Rydyn ni, ar y cyd â Cywain, wedi cefnogi'r achlysur Brecwast Rhwydweithio i Fusnesau Bwyd yn *Mallow Beverages*, Coed-elái. Daeth 9 o fusnesau bwyd o bob cwr o Rondda Cynon Taf i'r achlysur. Trwy feithrin cysylltiadau a dechrau sgwrs ymysg entrepreneuriaid bwyd lleol, ein gobaith yw creu rhwydwaith cryf sy'n gweithio tuag at arferion cynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd.

### Cyfleuster Cymunedol Gilfach-goch

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – Ailwampio'r Cynnig Bwyd

Rydyn ni wedi bod wrthi'n gweithio'n agos â staff ymroddgar, defnyddwyr gwasanaeth Cyfleuster Cymunedol Gilfach-goch a Chydlynydd Pobl Hŷn y Cyngor i archwilio ffyrdd o wella'r cynnig bwyd yn y cyfleuster wrth leihau ein hôl troed carbon. Mae ein gwaith caled wedi arwain at ganlyniadau cyffrous!

Ar 28 Mehefin, cynhalion ni ddiwrnod agored i ddangos ein cynnydd wrth greu bwydlen flasu prydau bach. Rydyn ni wedi llunio'r fwydlen yma'n ofalus er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys cynhwysion sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd er mwyn lleihau ein hôl troed carbon. Roedd cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth roi cynnig ar y fwydlen newydd a derbynion ni adborth cadarnhaol iawn.











# CONTACT THE TEAM

RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

01443 425368

